

GRIFFITH, JOHN EDWARDS (1843 - 1933), achyddwr

Enw: John Edwards Griffith

Dyddiad geni: 1843

Dyddiad marw: 1933

Rhiant: Griffith Griffith

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: achyddwr

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Natur ac Amaethyddiaeth; Ysgolheictod ac leithoedd

Awdur: Thomas Richards

Ganwyd 18 Mehefin 1843. Gan ei fod yn r da arno, medrodd ymddiddori'n fore ym myd hynafiaeth a byd natur; dyna sy'n cyfrif am ei waith yn cyhoeddi y *Flora of Anglesey and Carnarvonshire* yn 1894 a'r *Portfolio of Photographs of Cromlechs*, 1900; bu farw'n un o aelodau hynaf y Cambrian Archaeological Association (dod i mewn iddi yn 1888); yr oedd, o'r cychwyn cyntaf, yn aelod amlwg o Gymdeithas Hynafiaeth Môn - ychydig iawn o amser cyn ei farw cyfleodd restrï o offeiriaid yr ynys i'r *Transactions*, a detholion diddorol o ddyddiaduron [Bulkeley](#) o'r Brynndu. Yr oedd Griffith yn boenus ofalus gyda phopeth a wnâi, manwl a gwyddonol ei ddulliau, ac ni roddai ddim ar lawr heb fod (yn ei farn ef) brofion safadwy y tu ôl iddo. Awr ffodus oedd honno, felly, pan ddechreuodd ar ei hoff waith o adeiladu tablau achau; yr oedd yn ei elfen, a'i gysylltiadau teulu yn gymorth dirfawr iddo. Yr oedd ei dad, Griffith Griffith o'r Taldwrst yn Llangristiolus, yn aelod o deulu Penhesgin yn Llanfaethlu, ei fam o waed Huwsiaid Plas Coch, ewythr iddo wedi priodi merch [William Williams](#) o Landegai, ef ei hun yn briod (yr eiltro) â merch y Glasfryn ger Llangybi, priodas a ddaeth ag ef i gyffwrdd clos â chlwestwr newydd o ysweiniaid a chlerigwyr. Yr oedd llu o ddrysau yn agored iddo i archwilio papurau preifat a hen ddogfennau. Daeth yn hyddysg hefyd yn nhablau [Lewis Dwnn](#), yn y rhestrï achau a gasglwyd gan yr [esgob Humphrey Humphreys](#), a bu'n lwcus ryfeddol i sicrhau llyfrau llawysgrif John Ellis o'r Tai Croesion yn Llechylched, achyddwr gofalus a ddug ddisgyniadau teuluoedd Môn ac Arfon i lawr i 1721. Yn ychwanegol at hyn, bu'n lloffa'n ddygn yng nghofnodion esgobaeth Bangor ac yn ewyllysiau'r ' Probate Office ' (y ddwy swyddfa ym Mangor yn ei amser ef), a chadarnhau'r profion hyn drwy fynych archwilio llyfrau'r plwyfi oedd yn llaw'r offeiriaid. Ffrwyth y cwbl oedd cyhoeddi'r *Pedigrees* yn 1914, llyfr anferth ar achau prif deuluoedd Môn ac Arfon, heb anghofio eu ceinciau yn siroedd eraill Gogledd Cymru, llyfr amhrisiadwy werthfawr i bob chwilotwr a llyfrgellydd. Gwir bod y casgliadau lluosog a ddaw i mewn i'n llyfrgelloedd, gyda'u llu o ffeithiau newyddion, yn dangos yn eglur nad yw'r *Pedigrees* yn berffaith: rhai tablau'n anghyflawn, amryw yn anghywir. Y mynegai yn werthfawr, ond yn rhy fyr o lawer. Beth bynnag am y gwendidau hyn, erys y *Pedigrees* yn dyst o blwc aruthr, amynedd, a dyfalbara dirfawr, ac o ffeithiau trefnus a chywir i'w ryfeddu. Bu farw 4 Gorffennaf 1933.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Cofion personol

Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families (1914), rhagair, a 6, 31, 210

Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn, 1930, 86; 1931, 28-102, 113; 1932, 105

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733402](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

